

DADANSODDIAD ADENNILL COSTAU

REFENIW/TROSIANT

Refeniw yw'r arian y mae busnes yn ei wneud o werthiannau. Gelwir cyfanswm yr arian y mae busnes yn ei gael o'i werthiannau yn gyfanswm refeniw.


Cyfanswm refeniw = swm a werthir x pris gwerthu

MATHAU O GOSTAU

Costau sefydlog: Nid ydynt yn amrywio gydag allbwn. Dim ond yn y tymor hir y mae costau sefydlog yn newid. Er enghraifft: rhent, cyflogau rheolwyr, taliadau llog a dibrisiant.

Costau newidiol: Costau sy'n amrywio mewn cyfrannedd union â newidiadau mewn allbwn. Er enghraifft: deunyddiau crai, tanwydd a llafur (pan delir staff am yr hyn y maen nhw'n ei gynhyrchu).

Cyfanswm y costau: Costau sefydlog + costau newidiol



Costau lled-newidiol: Costau sy'n cynnwys elfennau sefydlog a newidiol, megis taliadau ffôn lle mae tâl sefydlog ynghyd â chyfradd ychwanegol sy'n amrywio yn ôl nifer y galwadau a wneir.

ELW

Cyfrifiad: Cyfanswm refeniw – cyfanswm costau

Enghraifft: Cyfrifwch yr elw a wnaed os oedd y busnes yn gweithredu ar y capasiti mwyaf posibl.

Uchafswm allbwn posibl (capasiti 100%)	400 000 unedau
Allbwn gwirioneddol	240 000 unedau
Costau newidiol (fesul uned)	£6
Costau sefydlog	£360 000
Pris gwerthu (fesul uned)	£14

Cyfanswm refeniw = $400000 \times £14$
Cyfanswm refeniw = £56000000

Costau sefydlog £360000

Costau newidiol = $400000 \times £6$
Costau newidiol = £2400000

Cyfanswm costau = Costau sefydlog + costau newidiol
Cyfanswm y costau = £360000 + £2400000
Cyfanswm y costau = £2760000

Elw = Cyfanswm refeniw – cyfanswm costau
Elw = £5600000 – £2760000
Elw = £2840000

CYFRANIAD

Diffiniad: Dyma'r gwahaniaeth rhwng yr incwm a gynhyrchir o werthiannau a chostau newidiol cynhyrchu'r nwyddau i gynhyrchu'r gwerthiannau hynny. Mae hyn yn caniatáu i fusnesau ddadansoddi a yw pob un o'i gynhyrchion yn talu ei gostau newidiol ei hun.

Defnyddir cyfraniad i dalu gorbenion y cwmni (costau sefydlog). Unwaith y bydd y rhain wedi'u cynnwys, mae cyfraniad ychwanegol yn creu elw.

**Cyfraniad fesul uned =
Pris gwerthu fesul uned – costau newidiol yr uned**

COSTAU UNIONGYRCHOL

Diffiniad: Costau sy'n codi'n benodol o gynhyrchu cynnyrch neu ddarparu gwasanaeth.

Mae enghreifftiau o gostau uniongyrchol yn cynnwys:

- rhent siop
- deunyddiau neu gydrannau
- llafur uniongyrchol
- treuliau fel taliadau hawlfraint ar lyfr cyhoeddedig
- ffioedd trwydded ar gyfer defnyddio patentau.

Gellir cyfuno'r costau uniongyrchol hyn er mwyn rhoi costau uniongyrchol cynhyrchu'r cynnyrch. Fodd bynnag, nid yw refeniw minws costau uniongyrchol yn dangos proffidoldeb. Rhaid i fusnes hefyd ddsrannu **gorbenion** neu gostau **anuniongyrchol** i'r cynnyrch.

GORBENION/COSTAU ANUNIONGYRCHOL

Diffiniad: Costau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chynhyrchu.

Mae enghreifftiau o gostau gorbenion yn cynnwys:

- cyflogi ysgrifennydd neu dderbynydd
- costau hysbysebu.

Dim ond os cymerwn o refeniw costau uniongyrchol a gorbenion y gellir barnu gwir broffidoldeb cynnyrch, ffatri, siop ac ati.



ADENNILL COSTAU

Diffiniad: Diagram sy'n dangos lefel yr allbwn lle nad yw busnes yn gwneud elw na cholled

Cyfrifiad:

Costau sefydlog
(Pris gwerthu yr uned minws cost newidiol yr uned)

Manteision:

- ✓ Dulliau **gweledol a hawdd** o ddadansoddi sefyllfa ariannol busnes ar wahanol lefelau o allbwn - mae'n rhoi canllaw gyffredinol werthfawr i broffidioldeb posibl.
- ✓ **Rhad i'w adeiladu** a gellir ei wneud yn gyflym. Gellir gweld elw neu golled ar yr olwg **gyntaf**- da i bobl sydd ddim yn arbenigwyr ariannol.
- ✓ Defnyddiol ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd **'beth os'** - gallant ymdopi ag amgylchiadau sy'n newid mewn perthynas â refeniw a chostau.
- ✓ Mae dadansoddiad adennill costau, fel rhan o **gynllun busnes**, yn gallu bod yn ddefnyddiol i ennill cyllid.
- ✓ Mae'n gwneud **gosod targedau'n haws**.
- ✓ Gallu **adnabod y ffin diogelwch** - cynllunio cymhorthion.

Cyfyngiadau:

- ✗ Yn aml yn cael ei ystyried **yn rhy syml** gan fod rhai tybiaethau'n afrealistig.
- ✗ **Mae'n tybio bod yr holl allbwn yn cael ei werthu**, ac yn aml nid yw hynny'n wir.
- ✗ **Mae'n tybio nad yw amodau'n newid** - mae cyflogau, prisiau a thechnoleg i gyd yn gallu newid yn sydyn.
- ✗ **Mae'n dibynnu ar ddata manwl gywir** ac yn aml bydd amcangyfrifon rhy uchel neu rhy isel yn cael eu gwneud.
- ✗ **Mae'n tybio bod cromliniau cyfanswm refeniw a chostau bob amser yn llinol** - efallai na fydd hyn yn wir.
- ✗ **Gall dyrannu costau sefydlog** mewn busnes aml-gynnyrch fod yn broblem - gan wneud allbwn dadansoddi adennill costau yn anghywir.
- ✗ **Mae costau sefydlog yn aml mewn camau** - mae hyn yn gwneud dadansoddiad adennill costau'n anodd.

CWESTIWN ARHOLIAD

KAYAKS AFON LAS (BRK)

Mae River Taff Kayaks (RTK) yn cynhyrchu caiacau (*kayaks*) i'w gwerthu i'r farchnad gweithgareddau awyr agored.


Mae'r wybodaeth isod yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2010.

COSTAU yn 2010
Costau sefydlog = £300 000
Costau llafur = £150 y caiac
Costau defnyddiau = £200 y caiac

GWERTHIANT yn 2010 = 1200 caiac
PRIS fesul caiac yn 2010 = £750

Mae'r rhent y mae BRK yn ei dalu am ei ffatri i fod i gynyddu £20 000 yn 2011. Er bod y gweithlu wedi'i ddarbwylo nad yw cynnydd mewn cyflogau yn bosibl ar gyfer 2011, amcangyfrifir bod costau defnyddiau yn debygol o gynyddu 15%. Mae BRK yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol iawn ac mae cynnydd o 3% mewn pris gymaint ag y mae'n teimlo y gall godi tâl arno yn 2011 ac eto mae'n dal i gyfateb i'w gyfaint gwerthiant yn 2010.


A. *Lluniwch a labelwch y siart adennill costau ar gyfer y flwyddyn 2010.*



B. *Yn seiliedig ar y ffigurau a roddwyd yn y darn, cyfrifwch faint y byddai elw BRK yn ei newid yn 2011 o'i gymharu â 2010.*

Refeniw: 1200 x £750 = £900,000	1200 x £772.50 = £927,000
Costau FC = £300,000	£320,000
VC = £420,000	£456,000
TC = £720,000	£776,000
ELW = £180,000	£151,000

Newid mewn elw = (£29,000) Gostyngiad o 16% neu 16.1%




FFIN DIOGELWCH

Diffiniad: Mae'r ffin diogelwch yn dangos faint y gall cynhyrchydd leihau allbwn cyn i'r busnes ddechrau gwneud colled.

Cyfrifiad:

Lefel a ddewiswyd o weithgarwch busnes - Pwynt adennill costau

Cwestiynau arholiad: Lluniwch y ffin diogelwch ar y siart pe bai'r holl hamperi'n cael eu gwerthu yn y flwyddyn gyntaf.



Faint o hamperi ydy'r ffin diogelwch yn cynnwys?

Ffin diogelwch = 600 - 200
Ffin diogelwch = 400 hamperi